# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Asiantaeth Maethu Cyngor Sir Penfro**

**Tîm Lleoliadau Teuluoedd**
**Gwasanaethau Cwsmeriaid Doc Penfro**
**Argyle Street**
**Doc Penfro**
**SA72 6HL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cyhoeddi

**12 Rhagfyr 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae gwasanaeth maethu Cyngor Sir Penfro yn recriwtio ac yn asesu gofalwyr maeth ac yn darparu lleoliadau maethu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Gall y lleoliadau fod yn rhai byrdymor neu hirdymor, gofal seibiant, seibiannau byr neu leoliadau gofal cysylltiedig. Caiff y gwasanaeth maethu, a leolir yn Noc Penfro, ei reoli gan Melany Evans. Cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, cafodd rheolwr y gwasanaeth ei enwebu fel yr unigolyn cyfrifol i gynrychioli'r awdurdod.

Ar adeg yr arolygiad, roedd gan y gwasanaeth maethu 111 o ofalwyr maeth prif ffrwd (64 o gartrefi) a oedd yn gofalu am 73 o blant a 15 o ofalwyr maeth cysylltiedig (8 cartref) a oedd yn gofalu am 11 o blant.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn profi lleoliadau magwrus a sefydlog gyda gofalwyr maeth sy'n deall eu hanghenion ac yn hyrwyddo eu llesiant. Mae'r plant yn gallu lleisio eu barn a gwneud dewisiadau, er y byddent yn cael budd o gael mwy o gyfleoedd i fynegi eu barn am y profiad o gael eu maethu ac i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ffurfiol ynghylch y modd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu a'i ddatblygu. Caiff y plant eu hannog a'u helpu i gymryd rhan mewn addysg ac archwilio eu diddordebau. Byddai'r plant yn cael budd o wasanaethau arbenigol i'w galluogi i wella eu canlyniadau.

Ers yr arolygiad blaenorol, gwelwyd newidiadau rheoli a chynnydd yn y galw am leoliadau, yn enwedig i blant ag anghenion cymhleth a lleoliadau i riant a phlentyn. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth maethu wedi bod o dan bwysau, gyda mwy o ffocws ar asesu unigolion cysylltiedig. Mae hyn wedi effeithio ar weithgarwch recriwtio, ac mae rhai plant wedi cael eu gosod mewn lleoliadau amhriodol gyda gofalwyr maeth nad ydynt yn gallu diwallu eu hanghenion yn llawn. Nid yw mesurau sicrhau ansawdd a llywodraethu bob amser yn effeithiol o ran sicrhau ansawdd y gwasanaeth a gwelliannau cysylltiedig. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae mentrau recriwtio rhanbarthol a lleol yn mynd rhagddynt ac mae cynlluniau ar y gweill i fynd i'r afael â diffygion yn y gwasanaeth. Mae angen i'r awdurdod lleol barhau i ganolbwyntio ar y materion hyn er mwyn sicrhau bod canlyniadau gwell i blant drwy eu paru'n well â lleoliadau er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle y mae'n rhaid dod â lleoliadau i ben ac i sicrhau bod gofalwyr yn meddu ar y sgiliau a'r arbenigedd i ddiwallu anghenion y plant y maent yn gofalu amdanynt.

### 2. Gwelliannau

- Mae'r gwasanaeth yn gweithio gydag awdurdodau lleol cyfagos i wella'r modd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu drwy drefniadau cydweithredu rhanbarthol.

- Penodiad gweithiwr cymdeithasol o fewn y tîm maethu sy'n gyfrifol am recriwtio gofalwyr maeth er mwyn gwella'r dewis o leoliadau sydd ar gael i'r plant.
- Mae recriwtio aelodau ychwanegol o'r panel maethu wedi cryfhau'r profiad a'r sgiliau sydd gan ei aelodau
- Mae trefniadau mentora gan gymheiriaid ar gyfer gofalwyr maeth wedi'u cyflwyno yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus; i roi cymorth ychwanegol i ofalwyr maeth sydd newydd eu cymeradwyo, a gofalwyr maeth sy'n profi sefyllfaoedd heriol iawn.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pedwar o'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd lle nad yw'r darparwr cofrestredig yn bodloni'r gofynion cyfreithiol a'n hargymhellion i wella'r gwasanaeth. Mae'r meysydd hyn yn ymwneud â chanllaw i blant y gwasanaeth, adolygiadau blynyddol o ofalwyr maeth a threfniadau sicrhau ansawdd.

Gwneir argymhellion mewn perthynas â'r meysydd canlynol;

- Gwella'r broses o baru plant â gofalwyr maeth
- Darparu gwybodaeth i ofalwyr maeth, lleoliadau y tu allan i oriau a threfniadau cymorth
- Ymgynghori â phlant
- Recriwtio, cynorthwyo a hyfforddi gofalwyr maeth
- Newidiadau i delerau cymeradwyo gofalwyr maeth
- Cymwysterau rheoli
- Yr iaith Gymraeg.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Ar y cyfan, mae'r plant yn profi cydberthnasau cadarnhaol â'r gofalwyr maeth sy'n deall eu hanghenion ac yn gallu darparu amgylchedd magwrus, diogel a sefydlog. Mae'r plant yn gallu mynegi eu barn a gwneud dewisiadau yn eu bywydau o ddydd i ddydd, er y byddent yn cael budd o gael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ffurfiol am y profiad o gael eu maethu a'r modd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu a'i ddatblygu. Dylid cymryd camau i sicrhau bod y plant yn cyfrannu at adolygiad blynyddol eu gofalwyr maeth. Caiff y plant eu hannog a'u cynorthwyo i gymryd rhan mewn addysg ac archwilio eu diddordebau. Fodd bynnag, byddai rhai o'r plant yn cael budd o wasanaethau arbenigol i'w galluogi i sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei darparu'n brydlon i'r gofalwyr maeth i'w galluogi i gadw'r plant yn ddiogel.

### Ein canfyddiadau

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn profi lleoliadau diogel gyda gofalwyr maeth sy'n darparu amgylchedd magwrus a sefydlog lle y gallant gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Gwnaethom gyfarfod â gofalwyr maeth a siaradodd yn gynnes am y plant yn eu gofal, a oedd yn awyddus iddynt gyflawni eu potensial ac a oedd yn amlwg yn falch o'u hymdrechion a'u cyflawniadau; ni waeth pa mor fach neu fawr. O fewn sampl o gofnodion, gwelsom y sylwadau canlynol:-

Gan y gofalwyr maeth
*“YY (child) is a really lovely young person.*
*“YY (child) is a kind, gentle young person”*

Gan weithwyr cymdeithasol y plant
*“YY (child) is very happy in placement, content and settled”*
*“XX (foster carers), took care of all of YY (child)’s needs, supported the plan very well and had a good relationship with mum”*
*“Thanks to XX (foster carers) hard work and their welcoming nature the introductions were very positive”*
*“XX (foster carers) embraced the children into their family”*
*“YY and YY (children) taught routines and boundaries but in a fun, relaxed atmosphere”*

Gan y plant sy'n derbyn gofal
*“I enjoy living with XX (foster carers)”*
*“XX (foster carers) treat me like I’m theirs”*
*“I am happy living with XX (foster carers)*

O'r adolygiadau blynyddol, gwelsom hefyd y sylwadau canlynol:

*“YY and YY (children) are part of the family.*
*“YY (foster carer explains things to YY (child) in a way they understand”*
Felly, ystyriwn fod y plant yn profi amgylcheddau cynnes a magwrus sy'n rhoi cyfle iddynt feithrin ymlyniadau ac ymdeimlad o berthyn.

Caiff y plant eu hannog a'u cynorthwyo i gyflawni eu potensial addysgol, gan ystyried eu cyrhaeddiad a'u cynnydd o ddechrau eu lleoliad. Rhoddir cyfleoedd ehangach iddynt ddilyn eu diddordebau, datblygu sgiliau a phrofi ymdeimlad o gyflawniad. Gwelsom enghreifftiau o ofalwyr maeth a oedd yn helpu'r plant drwy gadw mewn cysylltiad rheolaidd â staff yr ysgol, cludo'r plant i'r ysgol ac oddi yno, cynorthwyo gyda threfniadau pontio i ysgolion newydd, helpu gyda gwaith cartref a mynychu nosweithiau rhieni a digwyddiadau yn yr ysgol. Nododd gweithwyr cymdeithasol a staff ysgol eu bod yn gweld gwelliannau yng nghyflawniad addysgol y plant o ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth a roddir gan ofalwyr maeth. Roedd y cymorth ffurfiol a oedd yn cael ei roi gan wasanaeth seicoleg addysgol yr awdurdod lleol a chan "hyfforddwyr dysgu" a oedd yn gallu rhoi cymorth ychwanegol i blant yn yr ysgol neu'r cartref yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y gofalwyr maeth. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r gofalwyr maeth wedi'u gwahodd i gyfrannu at gynlluniau addysg personol y plant ac felly nid oeddent yn ymwybodol o'r targedau a bennwyd. Cawsom wybod gan reolwr y gwasanaeth fod y broses o lunio cynlluniau addysgu personol yn newid o fis Medi 2018 er mwyn sicrhau mwy o gyfranogiad gan blant a'u rhieni neu eu gofalwyr. Roedd cyrhaeddiad addysgol y plant yn cael ei fonitro'n fisol gan yr awdurdod lleol gan ddefnyddio model "ysgol rithwir" er mwyn olrhain cynnydd a rhoi cymorth ychwanegol lle'r oedd angen. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol nodi mwy o fanylion ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd. Soniodd y gofalwyr maeth wrthym am y pwysau ychwanegol sy'n eu hwynebu mewn rhai amgylchiadau lle nad yw'r plant yn mynychu ysgol.

Roedd y plant yn cael eu hannog a'u cynorthwyo gan eu gofalwyr maeth i ddilyn eu diddordebau y tu allan i'r ysgol a mynychu gweithgareddau yr oeddent yn eu mwynhau (e.e. drama, rhedeg trawsgwlad, rygbi a seiclo). Roedd cyfleoedd cymdeithasol yn cael eu cynnig hefyd drwy Gymdeithas Gofalwyr Maeth Sir Benfro ac roeddent yn gallu cymryd rhan mewn gwibgertio, trampolinio, marchogaeth a theithiau i atyniadau lleol. Roedd y tîm maethu hefyd yn trefnu digwyddiadau i'r teulu. Roedd rhai o'r plant wedi bod ar wyliau gyda'u gofalwyr maeth yn y DU a thramor. Gwelsom dystiolaeth o ymdrechion a chyflawniadau'r plant yn eu cofnodion a nodwyd bod seremoni wobrwyo wedi'i chynnal yn gynharach yn y flwyddyn. Fodd bynnag, gallai canlyniadau cadarnhaol i blant gael eu dangos yn well yng nghofnodion goruchwylio ac adroddiadau adolygu blynyddol gofalwyr maeth. Mae'r plant yn gallu cyrraedd eu potensial addysgol, datblygu eu diddordebau a chael profiadau hamdden cadarnhaol. Caiff eu cyrhaeddiad a'u cynnydd eu hannog a'u cefnogi ac mae hyn, yn ei dro, yn hyrwyddo eu hunanbarch ac yn cyfrannu at eu llesiant cyffredinol.

Ar y cyfan, mae gan y gofalwyr maeth y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i reoli risg a chadw'r plant yn ddiogel, er bod oedi weithiau cyn iddynt dderbyn gwybodaeth berthnasol, yn enwedig pan lleolir plant mewn argyfwng, y tu allan i oriau. Gwelsom amrywiadau

sylweddol yn lefel ac ansawdd y wybodaeth a roddwyd i'r gofalwyr maeth cyn i'r plant gael eu lleoli gyda nhw neu yn ystod y cyfnod hwnnw. Lle'r oedd lleoliadau wedi cael eu cynllunio, roedd y gofalwyr maeth yn cael digon o wybodaeth cyn y lleoliad fel arfer i'w galluogi i wneud penderfyniad hyddysg ynghylch y lleoliad arfaethedig. Gwelsom enghreifftiau o arfer da a oedd yn cynnwys barn y plant eu hunain am y math o ofal roeddent ei eisiau ac weithiau, roedd cyfarfodydd cyflwyniadol wedi'u trefnu rhwng y plant a'u darpar ofalwyr maeth. Roedd y wybodaeth a oedd ar gael am blant a leolwyd mewn argyfwng yn fwy cyfyngedig ac roedd y gofalwyr maeth yn disgwyl hynny. Fodd bynnag, mynegodd rhai o'r gofalwyr maeth bryderon ynghylch y trefniadau ar gyfer lleoli plant, a'r cymorth a oedd ar gael i ofalwyr maeth, y tu allan i oriau swyddfa. Dywedodd un o'r gofalwyr maeth wrthym am sefyllfa lle mai dim ond enw cyntaf ac oedran y plentyn yr oedd y gweithiwr cymdeithasol yn gallu eu darparu. Rhoddwyd enghreifftiau hefyd o sefyllfaoedd lle nad oedd y gofalwyr maeth wedi cael gwybodaeth am ymddygiad lle ceir risg, er bod yr awdurdod lleol eisoes yn gwybod am y plant. Gwelsom drefniadau lleoli unigol yn y sampl o gofnodion a oedd yn rhoi manylion i'r gofalwyr maeth ynghylch y plant a oedd yn derbyn gofal. Gwelsom hefyd fod trefniadau gofal mwy diogel ac asesiadau risg wedi'u cwblhau'n amserol ar gyfer plant unigol. Ar y cyfan, mae gan y gofalwyr maeth y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall a diwallu anghenion y plant. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau pellach er mwyn sicrhau bod y gofalwyr maeth yn cael gwybod am unrhyw risgiau a nodwyd a chanllawiau ynghylch rheoli risg cyn gynted â phosibl pan fydd plant yn cael eu lleoli mewn argyfwng.

Nid yw'r plant a'r gofalwyr maeth yn cael y cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt bob amser er mwyn sicrhau bod anghenion iechyd emosiynol y plant yn cael eu diwallu a'u bod y lleoliad yn un sefydlog. Ni welsom dystiolaeth bod system gydlynol ar waith i fynd i'r afael ag anghenion cymorth y plant a'r gofalwyr maeth pan fod lleoliadau yn ansefydlog ac mewn perygl o fethu. Er i'r rheolwr tîm sôn wrthym fod cymorth ychwanegol ar gael (yr oedd y gofalwyr maeth yn ei werthfawrogi) e.e. gan weithwyr cymorth y tîm maethu, y tîm ymyriadau teuluol, gwasanaethau cynhwysiant a seicoleg addysg ac iechyd, gwelwyd bod yr adnoddau yn brin, yn enwedig mewn perthynas ag ymyriadau therapiwtig. Felly, gwelwyd tystiolaeth yn y dogfennau a welsom fod plant ag anghenion ac ymddygiadau cymhleth iawn, gan gynnwys hunan-niweidio ac ymddygiad corfforol ymosodol, wedi cael eu symud i nifer o leoliadau gwahanol. Cyn ein harolygiad diwethaf, roedd yr awdurdod lleol wedi cymryd camau i sefydlu gwasanaeth seicoleg i blant a oedd yn derbyn gofal, a oedd yn cynnwys gwasanaethau seicolegydd clinigol, seicolegydd cynorthwyol a seicolegydd addysgol. Fodd bynnag, yn anffodus, nid oedd yr awdurdod lleol wedi llwyddo i recriwtio seicolegydd clinigol. Nid oedd y mater wedi'i ddatrys o hyd oherwydd, er bod CAMHS wedi cyflwyno gwasanaeth ymgynghori (i weithwyr proffesiynol yn unig) yn gynharach yn 2018, nid oedd y gwasanaeth hwn wedi llenwi'r bwlch yn y ddarpariaeth o ran gwaith uniongyrchol gyda phlant a'u gofalwyr maeth. Soniodd y gofalwyr maeth wrthym fod y cymorth therapiwtig a oedd ar gael yn flaenorol i'r plant a'r gofalwyr maeth yn cael ei golli'n fawr. Nid yw'r plant yn cael y cymorth therapiwtig a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt i hyrwyddo a gwella eu llesiant emosiynol a darparu cartref sefydlog iddynt bob amser.

Caiff y plant eu hannog i fynegi eu barn a gwneud dewisiadau yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Maent yn cyfrannu at y penderfyniadau a wneir ynghylch eu gofal a gallant ddefnyddio eiriolwr (mae cynnig rhagweithiol yn cael ei wneud). Fodd bynnag, nid ydynt yn cael gwybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth maethu cyn iddynt dderbyn gofal neu yn ystod y cyfnod hwnnw. Nid oes unrhyw systemau effeithiol ar waith i ymgynghori â phlant y tu hwnt i'r broses adolygu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Soniodd y gofalwyr maeth wrthym nad oedd y plant wedi cael canllaw i blant, a chadarnhaodd rheolwr y tîm maethu nad oedd y plant yn cael y canllaw hwn fel mater o drefn gan fod angen ei ddiwygio a'i ddiweddaru. Rhoddwyd gwybod i ni fod canllaw newydd i blant ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd. Dangosodd trafodaethau â'r plant a'r cofnodion a welwyd fod y plant yn gallu mynegi eu barn a gwneud dewisiadau o fewn eu lleoliadau maethu, gyda chefnogaeth trefniadau i ddirprwyo awdurdod a oedd ar waith yn gyffredinol. Roedd y plant yn gallu siarad â'u gweithwyr cymdeithasol yn ystod ymweliadau (er i'r plant sôn wrthym eu bod yn anhapus ynghylch y ffaith bod cynifer o newidiadau o ran eu gweithwyr cymdeithasol). Nid oeddent yn teimlo bod y gweithwyr cymdeithasol yn gwrando arnynt bob amser, ond soniodd un o'r plant wrthym fod ei weithiwr cymdeithasol cyfredol yn *"very good at their job"* ac wedi'i helpu i gyflawni ei nodau. Gwelwyd bod cynlluniau gofal a chymorth y plant yn cael eu hadolygu'n gyson yn eu cyfarfodydd adolygu. Roedd disgwyl y byddai pob plentyn yn cael ei weld gan ei Swyddog Adolygu Annibynnol cyn ei adolygiad er mwyn sicrhau bod ei farn yn hysbys. Fodd bynnag, nid oedd y graddau yr oedd y plant yn mynychu eu hadolygiadau ac yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal yn glir o'r cofnodion a welwyd. Roedd Tros Gynnal wedi'i gomisiynu'n rhanbarthol i ddarparu gwasanaeth eirioli ac ymwelwyr annibynnol a chawsom wybod bod y plant yn cael "cynnig rhagweithiol" o gymorth eiriolaeth. Roedd y plant a siaradodd â ni yn ymwybodol o'r gwasanaeth eirioli ac roedd y rhai a oedd wedi cael cymorth gan y gwasanaeth o'r farn bod eu heiriolwr wedi bod o gymorth.

Roedd hi'n siomedig nad oedd cyfleoedd ychwanegol i'r plant fynegi barn am y gofal roeddent yn ei gael ac am y gwasanaeth maethu yn fwy cyffredinol wedi'u datblygu ers ein harolygiad diwethaf. Nid oedd y trefniadau blaenorol a oedd ar waith i gefnogi'r plant ac ymgynghori'n anffurfiol â nhw yn weithredol bellach. Ni welsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn gofyn am farn y plant ar ddiwedd eu lleoliad, ac nid oeddent ychwaith yn cyfrannu at adolygiadau blynyddol y gofalwyr maeth er gwaethaf yr argymhelliad a wnaed gennym yn dilyn ein harolygiad blaenorol y dylai hynny ddigwydd fel rhan o'r broses adolygu. Nid oedd adroddiad diweddaraf y gwasanaeth maethu ar yr adolygiad o ansawdd gofal yn dangos ei fod yn ymgynghori'n briodol â'r plant. Gwelsom fod arolwg o brofiadau plant sy'n derbyn gofal wedi'i gynnal (adroddiad dyddiedig Ebrill 2018, Prifysgol Bryste a Coram Voice). Er mai dim ond 21% o'r plant a ymatebodd, roedd hi'n gadarnhaol gweld bod bwrdd rhianta corfforaethol yr awdurdod lleol yn ceisio cael rhagor o wybodaeth am y canfyddiadau a'r camau dilynol a oedd yn cael eu cymryd, yn enwedig mewn perthynas â dealltwriaeth plant o'r rhesymau pam yr oeddent yn derbyn gofal, p'un a oeddent yn teimlo'n ddiogel lle'r oeddent yn byw a nifer y newidiadau mewn gweithwyr cymdeithasol yr oedd y plant wedi'i weld. Caiff lleisiau'r plant eu clywed yn eu bywydau o ddydd i ddydd a thrwy'r broses o gynllunio gofal. Fodd bynnag, dylai eu cyfranogiad mewn prosesau ymgynghori,

gan gynnwys adolygiadau o'r gofalwyr maeth a'r adolygiad o ansawdd gofal y gwasanaeth, gael eu hatgyfnerthu gan fod y rhain yn ddulliau pwysig o wella ansawdd gofal maeth.

## 2. Gofal a Chymorth

### Crynodeb

Mae'r broses o recriwtio ac asesu'r gofalwyr maeth yn gadarn ar y cyfan, ac mae'r rhan fwyaf o'r plant a leolir gyda'r gofalwyr maeth yn cael gofal a chymorth mewn lleoliadau sefydlog. Fodd bynnag, nid yw dogfennau paru yn dangos bod penderfyniadau cadarn wedi'u gwneud a chaiff rhai o'r plant eu gosod gyda gofalwyr maeth mewn lleoliadau amhriodol neu leoliadau eraill lle na chaiff eu hanghenion eu diwallu'n llawn. Dylai unrhyw benderfyniadau ynghylch eithrio neu amrywio telerau cymeradwyo'r gofalwyr maeth gael eu cyflwyno i'r panel maethu yn amserol. Yn gyffredinol, mae'r gofalwyr maeth yn cael goruchwyliaeth a chymorth cyson ac amserol i'w galluogi i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r plant. Fodd bynnag, mae angen iddynt hefyd allu gwneud y gorau o gyfleoedd dysgu a datblygu er mwyn gwella canlyniadau i'r plant ymhellach.

### Ein canfyddiadau

Mae'r broses recriwtio ac asesu ar gyfer gofalwyr prif ffrwd a gofalwyr sy'n berthnasau yn drylwyr yn gyffredinol. Soniodd y rheolwr tîm wrthym fod y cynnydd yn yr asesiadau o unigolion cysylltiedig a gyfarwyddwyd gan y llysoedd wedi effeithio ar allu'r tîm maethu i ganolbwyntio ar weithgarwch recriwtio. Soniodd y gofalwyr maeth wrthym fod oedi hir, weithiau, rhwng gwneud eu hymholiad cychwynnol a chael ymateb gan y tîm. Roedd recriwtio gofalwyr maeth ychwanegol a oedd yn gallu diwallu anghenion penodol plant sy'n derbyn gofal, a oedd yn aml yn rhai cymhleth, wedi'i nodi fel un o flaenoriaethau'r gwasanaeth ac wedi'i gynnwys yng nghynllun y gwasanaethau plant ar gyfer 2018/19. Ochr yn ochr â threfniadau cydweithredu rhanbarthol parhaus mewn perthynas ag arferion maethu, recriwtio a hyfforddi, roedd y tîm maethu wedi penodi gweithiwr cymdeithasol llawn amser ychwanegol i fod yn gyfrifol am weithgarwch recriwtio. Roedd egni a brwdfrydedd yr aelod hwn o'r staff yn amlwg wrth iddo ddisgrifio'r amrywiaeth o weithgareddau recriwtio a gynhaliwyd ers iddo gael ei benodi ar ddiwedd mis Ebrill 2018. Soniwyd wrthym fod cynnydd sylweddol wedi'i weld yn nifer yr ymholiadau a wnaed o ganlyniad i hynny (40 o ymholiadau y llynedd;  43 o ymholiadau yn ystod y pedwar mis diwethaf). Roedd system hefyd wedi'i chyflwyno i dracio'r broses recriwtio er mwyn sicrhau bod camau dilynol yn cael eu cymryd yn brydlon ac er mwyn osgoi llithriant ym mhob rhan o'r broses recriwtio ac asesu.

Roedd darpar ofalwyr maeth prif ffrwd yn cael eu gwahodd i fynychu hyfforddiant "sgiliau maethu" cyn iddynt benderfynu a oeddent yn awyddus i barhau â'r broses asesu. Nod yr hyfforddiant, a oedd yn cael ei ddarparu gan y tîm o staff gyda mewnbwn gan ofalwyr maeth profiadol, oedd rhoi darlun realistig o'r broses faethu. Roedd y gofalwyr maeth o'r farn bod yr hyfforddiant o safon uchel. Roedd yr asesiadau o ddarpar ofalwyr maeth prif ffrwd a darpar ofalwyr maeth cysylltiedig a gwblhawyd yn ddiweddar wedi'u cyflwyno'n dda. Roedd y gwiriadau gofynnol wedi'u cwblhau a darparwyd dadansoddiad ac argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth. Nodwyd bod trefniadau ychwanegol wedi'u rhoi ar waith er mwyn

mynd i'r afael ag amrywiadau blaenorol o ran ansawddd adroddiadau. Roedd y rheolwr tîm wedi trefnu "clinigau" misol i alluogi'r staff i drafod eu hasesiadau cyfredol ac roedd adolygiad canol cyfnod wedi'i gynnal er mwyn sicrhau bod yr ansawdd yn aros yn gyson. Soniodd cadeirydd y panel maethu wrthym fod yr adroddiadau asesu a oedd yn cael eu cyflwyno i'r panel ar hyn o bryd o safon dda. Caiff llesiant y plant ei hyrwyddo gan ofalwyr maeth sydd wedi bod yn destun proses recriwtio ac asesu gadarn.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cael gofal a chymorth mewn lleoliadau sefydlog. Fodd bynnag, ni chaiff rhai o'r plant eu gosod mewn lleoliadau priodol ac nid yw dogfennaeth paru bob amser yn dangos bod penderfyniadau cadarn wedi'u gwneud. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi trefnu nifer o leoliadau llwyddiannus, gyda'r plant yn aros gyda'u gofalwyr maeth drwy gydol eu plentyndod ac weithiau y tu hwnt i hynny, o dan drefniadau "pan rwy'n barod". Roedd hi'n amlwg bod rhai o'r gofalwyr maeth wedi aros mewn cysylltiad â'r plant yr oeddent wedi'u maethu'n flaenorol, ac yn parhau i'w hystyried yn rhan o'r teulu. Dangosodd ein harsylwadau o gyfarfod dyrannu'r tîm maethu bod y tîm yn adnabod ei ofalwyr maeth yn dda a bod ganddo ddealltwriaeth dda o'u gwybodaeth a'u sgiliau. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg bod y broses o baru gofalwyr maeth â phlant, yn enwedig plant hŷn a'r rhai ag anghenion cymhleth, yn cael ei chyfyngu gan y nifer gyfyngedig o leoliadau maethu priodol. O ganlyniad, nid oedd anghenion rhai o'r plant yn cael eu diwallu'n llawn.

Gwelwyd nad oedd cofnodion paru wedi'u cwblhau'n llawn gan y tîm maethu, ac nid oeddent yn dangos bod proses baru gadarn ar waith. Er bod modd gofyn i'r tîm am wybodaeth ynghylch anghenion y plant, nid oedd y wybodaeth hon ar gael yn y cofnod paru. Nid oedd sgiliau, profiad a hyfforddiant y gofalwyr maeth wedi'u cofnodi, nac ychwaith unrhyw gymorth neu hyfforddiant ychwanegol y gallai fod ei angen ac, os felly, sut y byddai'n cael ei ddarparu. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod effaith y lleoliad newydd ar blant a oedd eisoes yn byw yn y cartref, ac i'r gwrthwyneb, wedi cael ei hystyried. Gan nad oedd y cofnodion yn dangos priodoldeb y paru na'r broses gwneud penderfyniadau, roedd hi'n anodd nodi i ba raddau yr oedd y paru gwirioneddol yn amhriodol ac i ba raddau nad oedd y wybodaeth baru wedi'i chofnodi'n dda.  Fodd bynnag, roedd rhai o'r plant wedi symud lleoliadau nifer fawr o weithiau, gan arwain at lefelau sylweddol o ansefydlogrwydd ac anawsterau cynyddol o ran datblygu ymlyniadau cadarnhaol. Soniodd y plant wrthym eu bod wedi treulio digwyddiadau pwysig mewn bywyd fel pen-blwyddi a'r Nadolig mewn lleoliadau brys ac weithiau mewn lleoliadau anghofrestredig a lleoliadau heb eu rheoleiddio.

Gwelsom fod rhai o'r plant wedi'u gosod gyda gofalwyr maeth y tu allan i'w telerau cymeradwyo. Soniodd y staff wrthym fod penderfyniadau i amrywio telerau cymeradwyo neu gytuno ar eithriadau yn cael eu gwneud yn y lle cyntaf gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant, tra'n disgwyl am benderfyniad y panel maethu. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion yn dangos yn glir bod y materion hyn yn cael eu dwyn i sylw'r panel maethu yn brydlon. Soniodd rheolwr y gwasanaeth wrthym fod trefniadau ar waith ar adeg yr arolygiad i weithwyr cymdeithasol anfon ceisiadau am eithriadau neu amrywiadau at bennaeth y gwasanaeth drwy reolwr y gwasanaeth, a oedd wedyn yn gallu olrhain cynnydd a sicrhau bod penderfyniadau amserol yn cael eu gwneud gan y panel.  Ymddengys fod rhywfaint o

ddryswch hefyd o fewn y tîm ynghylch yr amgylchiadau pan ddylid ceisio amrywiad. Cyn diwedd ein harolygiad, soniodd y rheolwr tîm wrthym fod y gwasanaeth wedi mynd i'r afael â'r mater hwn a bod canllawiau wedi'u darparu i'r staff. Yn gyffredinol, caiff y plant ofal, cymorth a sefydlogrwydd pan gânt eu lleoli â gofalwyr maeth sy'n gallu diwallu eu hanghenion yn llawn. Fodd bynnag, caiff rhai o'r plant eu gosod â gofalwyr maeth nad ydynt yn gallu diwallu eu hanghenion ac mae angen cymryd camau i sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei leoli mewn cartref sefydlog a diogel. Mae angen i'r ddogfennaeth ddangos y broses baru'n glir a, lle y caiff diffygion eu nodi, dylai gynnwys manylion y camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw. Dylai penderfyniadau ynghylch eithrio neu amrywio telerau cymeradwyo'r gofalwyr maeth gael eu cyflwyno i'r panel maethu yn amserol.

Caiff y gofalwyr maeth eu goruchwylio a'u cefnogi gan y gwasanaeth. Gwelsom enghreifftiau mewn cofnodion goruchwylio o drefniadau goruchwyliaeth da gyda thrafodaethau ynghylch cynnydd y plant, yr arweiniad a gynigiwyd a'r sylw a roddwyd i anghenion lles a dysgu'r gofalwyr maeth. Fodd bynnag, roedd ansawdd y cofnodion goruchwylio yn amrywio. Roedd rhai o'r cofnodion yn gryno iawn ac nid oeddent yn amrywio rhyw lawer o fis i fis. Roedd templed goruchwylio newydd wedi'i gyflwyno'n ddiweddar er mwyn adlewyrchu'r model ymarfer "arwyddion diogelwch" a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol, a fyddai gobeithio yn helpu i sicrhau bod y cofnodion yn fwy cyson. Gwelsom fod y gofalwyr maeth ar y cyfan yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd, yn unol â datganiad o ddiben y gwasanaeth. Serch hynny, nid oedd trefniadau amgen yn cael eu rhoi ar waith bob amser pan roedd y gweithwyr cymdeithasol a oedd yn eu goruchwylio yn absennol o'r gwaith. Fodd bynnag, gwelsom fod y tîm maethu yn ymdrechu i gadw mewn cysylltiad â'r gofalwyr maeth ac ymweld â nhw, os oedd angen, pan nad oedd y gweithwyr cymdeithasol a oedd yn eu goruchwylio ar gael.

Soniodd y gofalwyr maeth wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda o ddydd i ddydd gan y gweithwyr cymdeithasol sy'n eu goruchwylio a'r ddau weithiwr cymorth sy'n aelodau o'r tîm a oedd yn ymgymryd â rhywfaint o waith uniongyrchol â'r plant ac yn rhoi cymorth ymarferol i'r gofalwyr maeth. Roeddent hefyd o'r farn bod y system a weithredwyd gan y tîm ar gyfer y rheini sydd ar ddyletswydd yn ystod y dydd yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, nid oedd y gofalwyr maeth o'r farn bod y trefniadau sydd ar waith y tu allan i oriau yn rhoi digon o gymorth iddynt. Roedd y tîm maethu wedi sefydlu grŵp cymorth ar gyfer gofalwyr maeth a oedd yn gofalu am blant a oedd yn cael eu mabwysiadu, a soniodd un aelod o staff wrthym fod y tîm yn bwriadu sefydlu grŵp ar gyfer gofalwyr maeth cysylltiedig er mwyn diwallu eu hanghenion cymorth nhw. Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus, roedd cynlluniau ar y gweill hefyd i gyflwyno cynllun mentora gan gymheiriaid a fyddai'n gweld gofalwr maeth profiadol yn rhoi cyngor a chymorth ychwanegol i ofalwyr maeth newydd a gofalwyr maeth sy'n wynebu sefyllfaoedd heriol iawn. Roedd y gofalwyr maeth yn cael cyngor, cymorth a chynrychiolaeth ychwanegol hefyd gan Gymdeithas Gofalwyr Maeth Sir Benfro, sefydliad annibynnol, lleol sy'n cyfarfod yn fisol. Gwelsom dystiolaeth bod y tîm maethu a'r gymdeithas hon yn gweithio mewn partneriaeth, gyda gweithgareddau cymdeithasol yn cael eu cynnal a'r gofalwyr maeth yn cefnogi

digwyddiadau recriwtio. Roedd hi'n amlwg o'r ddogfennaeth a welwyd a'n trafodaethau â rheolwr y tîm maethu a rheolwr y gwasanaeth fod cadw gofalwyr ymroddedig, profiadol yn bwysig a gwelsom fod cyfarfodydd rheolaidd wedi'u cynnal â'r gymdeithas gofalwyr maeth drwy gydol 2018 er mwyn gwella'r broses gyfathrebu ac ymgynghori ar faterion penodol e.e. hyfforddiant ar gyfer gofalwyr maeth. Yn ystod ein harolygiad, soniodd y gofalwyr maeth wrthym eu bod yn teimlo nad oedd y cymorth a roddwyd iddynt yn ddigonol pan gafodd honiadau neu gwynion eu gwneud yn eu herbyn. Roedd y gofalwyr maeth wedi codi'r mater hwn gyda rheolwr y tîm maethu a rheolwr y gwasanaeth ac, yn dilyn hyn, gwelsom fod proses ymgynghori wedi'i chynnal â nhw er mwyn nodi'r ffordd orau o ddarparu'r cymorth hwn. Gwelsom fod canllawiau ysgrifenedig ychwanegol i ofalwyr maeth, a oedd yn amlinellu'r trefniadau cymorth hyn, wedi'u llunio yn dilyn y cyfarfod ymgynghori.
Roedd yr adborth a gafwyd gan y gofalwyr maeth ynghylch y trefniadau rheoli cyfredol yn gadarnhaol, gyda'r gofalwyr maeth yn teimlo'n obeithiol ynghylch gwelliannau i'r gwasanaeth yn y dyfodol. Darparwyd copi hefyd o gylchlythyr y tîm maethu ar gyfer Gorffennaf 2018, a oedd yn cynnig ffordd arall o gyfathrebu â'r gofalwyr maeth, yn enwedig y rheini nad oeddent am gymryd rhan yn y gweithgareddau cymdeithasol neu'r grwpiau cymorth a drefnwyd.

Dangosodd trafodaethau â rheolwr y tîm maethu a'r staff fod y gofalwyr maeth yn cael eu cefnogi gan dîm o staff deallus a phrofiadol a oedd yn gallu mynd ati i ddysgu a datblygu ymhellach. Roedd gan reolwyr y tîm Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Ymarfer Rheoli a Gofal Cymdeithasol ac roedd yn gweithio tuag at gymhwyster rheoli lefel 5 y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau. Yn gyffredinol, roedd y staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd. Serch hynny, nodwyd bod oedi weithiau pan roedd y goruchwylwyr yn cyflenwi ar gyfer cydweithwyr absennol. Roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i fyfyrio ar eu hymarfer a bod eu syniadau yn cael eu gwerthfawrogi e.e. roedd y staff wedi cyfrannu at y polisi "pan rwy'n barod" a'r polisi goruchwylio newydd a oedd yn cael ei gyflwyno yn yr adran. Soniwyd wrthym fod llwythi gwaith yn dderbyniol ar y cyfan, er bod y broses o asesu unigolion cysylltiedig wedi rhoi pwysau ar y tîm. Roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu cydweithwyr, eu rheolwr tîm a rheolwr y gwasanaeth. Mae trefniadau goruchwylio a chymorth yn helpu'r gofalwyr maeth i ddiwallu anghenion plant a hyrwyddo eu llesiant cyffredinol.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi. Fodd bynnag, mae nifer y gofalwyr maeth sy'n mynychu'r hyfforddiant hwn yn amrywio, ac nid yw'n cael ei gysylltu â chynlluniau dysgu a datblygu unigol bob amser. Gwelwyd bod y llawlyfr i ofalwyr maeth yn rhoi gwybodaeth am fynychu hyfforddiant, gan gynnwys y lwfans maethu ychwanegol a delir i ofalwyr maeth sy'n mynychu chwe chwrs hyfforddi dros gyfnod o ddeuddeg mis. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol pe bai mwy o eglurder ynghylch y disgwyliadau hyfforddi i ofalwyr maeth cysylltiedig a phob unigolyn ar gyfer cyplau sy'n maethu. Dangosodd y cofnodion hyfforddi fod amrywiadau sylweddol yn lefel yr hyfforddiant a fynychwyd gan ofalwyr maeth unigol. Nid oedd rhai o'r gofalwyr maeth wedi mynychu unrhyw hyfforddiant yn ystod y deuddeg mis diwethaf ac weithiau'n hirach na hynny. Dywedodd rheolwr y tîm maethu wrthym fod gofalwyr maeth profiadol o'r farn bod rhywfaint o'r hyfforddiant a gynigir yn

ailadroddus. Serch hynny, cafwyd adborth cadarnhaol ar y gwaith straeon bywyd a'r cyrsiau "hyder mewn gofal" cenedlaethol. Yn amlwg, roedd rhai o'r gofalwyr maeth yn ei chael hi'n anodd mynychu hyfforddiant; gwnaethant sôn wrthym eu bod wedi siarad â rheolwr y tîm a rheolwr y gwasanaeth am yr anawsterau a oedd yn eu hwynebu o ran mynychu cyrsiau y tu allan i'r diwrnod ysgol, gyda'r nos ac ar benwythnosau heb fod darpariaeth gofal plant yn cael ei chynnig. Roedd y gwasanaeth wedi ymdrechu i fod yn fwy hyblyg o ran gofynion hyfforddi ac, yn dilyn diwrnod ymgynghori â'r gofalwyr maeth ym mis Ionawr 2018, cafodd ffeiliau datblygu gofalwyr maeth eu datblygu'n ddiweddar. Roedd y ffeiliau hyn yn cynnwys deunydd darllen hunangyfeiriedig, sesiynau un-i-un gyda gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol a hyfforddiant ar-lein a wyneb yn wyneb yn ystod y dydd a chyda'r nos. Nid oedd anghenion dysgu a datblygu'r gofalwyr maeth yn cael eu hystyried yn gyson yn eu hadolygiadau blynyddol, gan nad oedd nifer sylweddol o'r adolygiadau yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen ofynnol. Felly, ni allem fod yn siŵr bod anghenion dysgu a datblygu unigol y gofalwyr maeth yn cael eu nodi a'u diwallu. Mae'r gwasanaeth wrthi'n datblygu'r hyfforddiant a ddarperir er mwyn galluogi'r gofalwyr maeth i fanteisio ar amrywiaeth ehangach o gyfleoedd dysgu a datblygu. Gallai'r canlyniadau i blant fod hyd yn oed yn well pe bai'r gofalwyr maeth yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd dysgu a datblygu a gynigir, yn unol â'u cynlluniau unigol.

## 3. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Yn gyffredinol, mae'r gwasanaeth yn gweithredu yn unol â'i ddatganiad o ddiben, sy'n galluogi'r rhan fwyaf o'r plant i brofi lleoliadau sefydlog a chanlyniadau cadarnhaol. Fodd bynnag, ni allwn fod yn gwbl sicr bod y mesurau sicrhau ansawdd a llywodraethu sydd ar waith yn effeithiol bob amser o ran sicrhau ansawdd y gwasanaeth, gan nad yw'r gwasanaeth yn bodloni gofynion cyfreithiol yn gyson. Cydnabyddir bod gwelliannau diweddar wedi'u gwneud i'r trefniadau monitro a'r modd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu.

Mae'r gofalwyr maeth yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran y gwasanaeth, ond dylai cytundebau gofalwyr maeth gael eu diweddaru'n brydlon yn dilyn unrhyw newidiadau i'w statws cymeradwyo.

### Ein canfyddiadau

Mae plant, teuluoedd a gofalwyr maeth yn profi gwasanaeth sy'n gweithredu yn unol â'i ddatganiad o ddiben yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod dogfennau ychwanegol sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn cael eu diweddaru a'u bod ar gael. Adolygwyd datganiad o ddiben y gwasanaeth ym mis Awst 2018. Roedd y ddogfen yn amlinellu nod, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y gwasanaeth ac yn cynnwys gwybodaeth am ddod yn ofalwr maeth, y trefniadau staffio a'r gwasanaeth a ddarperir. Fodd bynnag, nid oedd yn cyfeirio at safbwynt y gwasanaeth o ran y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Ar y cyfan, gwelsom fod y datganiad o ddiben yn gofnod cywir o'r modd y caiff y gwasanaeth ei weithredu o ddydd i ddydd, er bod meysydd lle nad oedd ymarfer o ddydd i ddydd yn adlewyrchu amcanion y gwasanaeth nac yn bodloni gofynion cyfreithiol yn gyson (fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn). Gwelwyd nad oedd gwybodaeth am y gwasanaeth ar ffurf canllaw i blant wedi'i rhoi i'r plant a oedd yn derbyn gofal fel mater o drefn, ac roedd angen diwygio gwybodaeth ychwanegol am y gwasanaeth gan gynnwys polisïau, gweithdrefnau a'r llawlyfr i ofalwyr maeth er mwyn rhoi'r wybodaeth gyfredol. Nodwyd bod angen canllawiau ychwanegol ar gyfer rhai o feysydd ymarfer gofalwyr maeth e.e. materion ariannol sy'n ymwneud â phlant. Yn gyffredinol, mae profiad y plant o'r gwasanaeth maethu yn gyson â'r hyn a ddisgrifir yn y datganiad o ddiben, a chaiff eu llesiant eu hyrwyddo. Fodd bynnag, dylid sicrhau bod gwybodaeth am y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar gael, ynghyd â chanllawiau ychwanegol i ofalwyr maeth ar ffurf llawlyfr a pholisïau a gweithdrefnau cyfredol.

Ar y cyfan, mae'r gofalwyr maeth yn deall eu hymrwymiadau o ran y gwasanaeth maethu. Gwelsom fod cytundebau'r gofalwyr maeth wedi'u cwblhau ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo ac roedd tystiolaeth bod cytundebau rhai o'r gofalwyr maeth wedi'u diweddaru ar ôl hynny. Fodd bynnag, ni allem fod yn sicr, o'r cofnodion a welwyd, fod cytundebau gofalwyr maeth wedi cael eu diweddaru'n gyson ac yn brydlon yn dilyn newidiadau i'w telerau cymeradwyo. Mae'r gofalwyr maeth yn deall eu hymrwymiadau i'r gwasanaeth maethu. Fodd bynnag,

dylid cymryd camau i sicrhau bod cytundebau gofalwyr maeth yn adlewyrchu'r telerau cymeradwyo cyfredol ar gyfer pob gofalwr maeth yn gyson.

Mae'r panel maethu yn gweithredu yn unol â'r rheoliadau ac yn mynd ati'n effeithiol i asesu gofalwyr maeth newydd ac adolygu gofalwyr maeth presennol. Roedd prosesau'r panel wedi newid mewn sawl ffordd yn ystod y flwyddyn flaenorol ac roedd y cadeirydd ac aelodau'r panel yn teimlo bod hyn wedi arwain, neu y byddai hyn yn arwain at banel mwy effeithlon yn y dyfodol; roedd rhai agweddau wedi'u cyflwyno ar adeg yr arolygiad ac felly nid oeddent wedi'u hymgorffori'n llawn eto. Roedd y newidiadau yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau ansawdd asesiadau cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r panel. O ganlyniad, roedd y panel yn treulio llai o amser yn chwilio am wybodaeth goll neu'n gohirio argymhellion.
- Cyfathrebu gwell rhwng cadeirydd y panel ac uwch reolwyr cyfrifol yr awdurdod lleol.
- Copïau electronig o bapurau'r panel.
- 'Paneli agored'. Y panel a arsylwyd gennym oedd y cyntaf lle'r oedd yr ymgeiswyr/gofalwyr maeth yn bresennol yn ystod trafodaethau ac ystyriaethau'r panel. Soniodd aelodau'r panel wrthym eu bod wedi codi amheuon ynghylch sefyllfaoedd penodol lle'r oeddent yn teimlo na fyddai'n briodol i ddarpar ofalwyr fod yn bresennol yn ystod y trafodaethau. Roedd yr uwch reolwr cyfrifol wedi derbyn hyn a chytunwyd i newid y polisi o dan y fath amgylchiadau.
- System fwy cadarn ar gyfer ystyried adolygiadau blynyddol. Nid oedd adolygiadau blynyddol wedi'u cynnal yn gyson tan yn ddiweddar. Roedd yr uwch reolwr cyfrifol wedi ceisio unioni'r sefyllfa hon drwy sicrhau bod adolygiad blynyddol pob gofalwr maeth yn cael ei gyflwyno i'r panel yn ystod 2018, gyda disgwyliad yn y dyfodol y byddai'r adolygiad blynyddol cyntaf yn cael ei gyflwyno i'r panel gydag adolygiadau dilynol yn cael ei gyflwyno bob tair blynedd wedi hynny.

Caiff y panel ei gadeirio gan berson annibynnol sydd â phrofiad o faethu a gofal cymdeithasol. Roedd y panel yn cynnwys y gynrychiolaeth ofynnol gyda chydbwysedd da o sgiliau, profiad a chefndiroedd amrywiol. Arsylwyd panel maethu a oedd yn ystyried adolygiadau blynyddol ac asesiad cyfunol o unigolion cysylltiedig. Cafodd y panel ei gynnal yn dda gyda'r cadeirydd yn sicrhau bod pob aelod yn cyfrannu at y trafodaethau. Gwelsom aelodau'r panel yn mynd i'r afael â materion anodd mewn ffordd hyderus. Rhoddwyd cyfleoedd i'r gofalwyr maeth wneud awgrymiadau neu arsylwadau ynghylch y broses asesu neu eu profiad o'r panel neu o fod yn ofalwr maeth ar gyfer Sir Benfro. Gwnaethom gyfarfod â chadeirydd y panel ac aelodau'r panel ar wahân, a gadarnhaodd fod arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal fel mater o drefn a bod nifer o gyfleoedd hyfforddi wedi'u cynnig iddynt yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys rolau a chyfrifoldeb aelod o'r panel, trosolwg o'r cwrs 'sgiliau maethu' i ddarpar ofalwyr maeth, paneli agored a

gweithio gyda ffoaduriaid. Soniodd aelodau o'r panel wrthym eu bod yn teimlo bod y panel yn cynnig system gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau o ansawdd da ynghylch cymeradwyo gofalwyr maeth. Yn gyffredinol, mae'r panel maethu yn hyrwyddo lleoliadau diogel drwy wneud penderfyniadau cadarn a sicrhau ansawdd.

Mae strwythur ar waith lle mae'r rheolwyr yn goruchwylio'r gwasanaeth. Mae mesurau sicrhau ansawdd a llywodraethu ar waith ond nid ydynt yn effeithiol bob amser o ran sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn cymryd camau i wella trefniadau sicrhau ansawdd a'r modd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Roedd trefniadau ffurfiol ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaethau plant er mwyn sicrhau goruchwyliaeth gan reolwyr ac ansawdd y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau rheolaidd o gydymffurfiaeth a safonau ymarfer. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg, am y rhan fwyaf o'r cyfnod ers ein harolygiad diwethaf yn 2016, nad oedd fawr ddim cynnydd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael ag achosion o dorri rheoliadau neu weithredu ar yr argymhellion a wnaed ar yr adeg honno. Er enghraifft, yn ein harolygiad diwethaf, nodwyd bod nifer o adolygiadau blynyddol gofalwyr maeth heb eu cwblhau o 2014 ymlaen. Felly, nodwyd bod disgwyl i'r rheolwr tîm a rheolwr y gwasanaeth ar y pryd sicrhau bod adolygiadau blynyddol hwyr o ofalwyr maeth yn cael eu cwblhau fel mater o frys, gydag adolygiadau yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen yn y dyfodol. Fodd bynnag, gwelsom mai ychydig iawn o gynnydd a oedd wedi'i wneud yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod hwnnw, gyda thua 75% o adolygiadau hyd at dair blynedd yn hwyr cyn i reolwr cyfredol y gwasanaeth gael ei benodi ym mis Hydref 2017. Felly, roeddem yn falch o weld bod rheolwr y gwasanaeth wedi cymryd camau wedi hynny i fynd i'r afael â'r ôl-groniad. Cawsom wybod bod y gwasanaeth wedi gofyn am gymorth gan y gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol yn y byrdymor, gyda'r nod o gwblhau'r adolygiadau a oedd yn weddill erbyn diwedd 2018. Fodd bynnag, o ystyried y pwysau ar gapasiti'r gwasanaeth maethu, ystyriwyd y byddai angen gwaith craffu gofalus drwy drefniadau sicrhau ansawdd y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod adolygiadau yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen yn y dyfodol. Nodwyd nad oedd y broses adolygu yn bodloni gofynion cyfreithiol, gan nad oedd y gwasanaeth wedi ceisio barn y gofalwyr maeth a'r plant a oedd yn derbyn gofal nac wedi'i hystyried. Er bod y diffygion wedi'u nodi gan y rheolwr tîm a rheolwr y gwasanaeth, roedd angen gwaith pellach i fynd i'r afael â'r mater hwn yn llawn.

Nodwyd bod y newidiadau mewn personél ar bob lefel wedi effeithio ar y modd y darparwyd y gwasanaeth a'r gwaith o'i wella ac er bod y gwasanaeth maethu yn defnyddio amrywiaeth o fesurau sicrhau ansawdd, roedd hi'n ymddangos mai ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael ynghylch perfformiad. Er enghraifft, yn ôl y cofnodion, er bod 9% o'r plant (ffigurau ar 31/01/18) wedi profi tri lleoliad neu fwy a oedd wedi dod i ben yn annisgwyl (a bod rhai o'r plant wedi profi llawer mwy na hynny), nid oedd trefniadau ar waith i gasglu a dadansoddi'r canfyddiadau hyn er mwyn pennu a gwella canlyniadau i'r plant a oedd yn cael eu maethu. Nodwyd hefyd nad oedd digon o waith dadansoddi yn yr adolygiad diwethaf o ansawdd gofal. Ni ddangoswyd ychwaith bod barn y plant a'r gofalwyr maeth wedi'i defnyddio i lywio'r adroddiad. Felly, roedd hi'n gadarnhaol gweld bod y gwaith o ddatblygu a chyflwyno cynllun gwella i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth wedi'i gynnwys yng nghynllun y

gwasanaethau plant ar gyfer 2018/19, a gwelsom hefyd fod camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn y gwasanaeth. O'n trafodaethau â rheolwr y tîm maethu ac o'r ddogfennaeth a welwyd, roedd hi'n amlwg bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio mwyfwy gan y rheolwyr a bod trefniadau newydd ar waith gan gynnwys gwiriadau ychwanegol o ansawdd asesiadau, mwy o oruchwyliaeth gan y gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol o'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud mewn perthynas â chynlluniau gofal a chymorth plant, amserlen ar gyfer mynd i'r afael â'r ôl-groniad o adolygiadau o ofalwyr maeth, newidiadau i'r panel maethu a threfniadau ar gyfer ymgynghori'n rheolaidd â'r gofalwyr maeth. Nodwyd bod y gofalwyr maeth wedi sôn wrth reolwyr y gwasanaeth nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael digon o gymorth pan oedd honiad neu gŵyn yn cael ei gwneud yn eu herbyn. Gwelsom fod y rheolwr tîm wedi mynd ati i ymgynghori â'r gofalwyr maeth ac wedi llunio canllawiau drafft yn sgil hynny, gan gynnwys sawl opsiwn o ran trefniadau cymorth i ofalwyr maeth. Mae angen gwelliannau pellach er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu dangos bod gan y rheolwyr oruchwyliaeth gadarn dros y gwasanaeth a ddarperir fel mater o drefn a bod trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu yn gadarn. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod y gwasanaeth yn gwella.

# 4. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 4.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Gwnaethpwyd yr argymhellion canlynol yn dilyn ein harolygiad diwethaf mewn perthynas â meysydd lle nad oedd y gwasanaeth yn bodloni gofynion cyfreithiol:

- Dylai'r rheolwr tîm a rheolwr y gwasanaeth sicrhau bod adolygiadau blynyddol hwyr o ofalwyr maeth yn cael eu cwblhau fel mater o frys a bod adolygiadau yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen yn y dyfodol.

- Dylai llais y plentyn gael ei gyflwyno'n gyson ac yn glir o fewn y broses flynyddol o adolygu gofalwyr maeth.

## 4.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom hysbysu'r person cofrestredig bod angen gwelliannau er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn mewn perthynas â'r canlynol:

- Rheoliad 3 (4); dylid sicrhau bod pob plentyn yn cael copi o'r canllaw i blant.

- Rheoliad 42 (1); 42(2) sefydlu a chynnal system ar gyfer monitro a gwella ansawdd y gwasanaeth; ymgynghori â'r ystod lawn o randdeiliaid a gwaith dadansoddi canlyniadol.

- Rheoliad 29 (2); 29(3)b) Adolygiadau cymeradwyo blynyddol; dylid cwblhau adolygiad blynyddol o gymeradwyaeth gofalwyr maeth; Ceisio ac ystyried plant, gofalwyr maeth a chynrychiolwyr yr awdurdod sy'n trefnu eu lleoliad.

## 4.3 Argymhellion pellach

- Dylai cofnodion paru gynnwys digon o fanylion i ddangos bod penderfyniadau cadarn wedi'u gwneud; gan gynnwys effaith bosibl y lleoliad ar unrhyw blant presennol ac i'r gwrthwyneb. Hefyd, lle caiff bylchau eu nodi o ran paru, dylai'r gwasanaeth maethu gofnodi sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r rhain, er enghraifft, drwy hyfforddiant neu gymorth. (Gwnaethpwyd yr argymhelliad hwn hefyd yn dilyn ein harolygiad diwethaf).

- Dylai penderfyniadau ynghylch eithrio neu amrywio telerau cymeradwyo gofalwyr maeth gael eu cyflwyno i'r panel maethu yn amserol.

- Dylai cytundebau gofalwyr maeth gael eu diweddaru'n brydlon ar ôl gwneud unrhyw newidiadau i'w statws cymeradwyo.
- Dylid sicrhau bod gofalwyr maeth yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt fel bod unrhyw risgiau a nodwyd a chanllawiau ynghylch rheoli risg yn cael eu cyfathrebu cyn gynted â phosibl pan fydd plant yn cael eu lleoli mewn argyfwng
- Dylid mynd ati i adolygu'r trefniadau ar gyfer rhoi cymorth i ofalwyr maeth y tu allan i oriau er mwyn sicrhau bod y cymorth hwnnw yn addas at y diben. (Gwnaethpwyd yr argymhelliad hwn hefyd yn dilyn ein harolygiad diwethaf).
- Dylid mynd ati i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cynnwys plant mewn prosesau ymgynghori sy'n ymwneud â'u profiad o gael eu maethu a materion ehangach sy'n ymwneud â'r gwasanaeth.
- Dylai'r gwasanaeth barhau i geisio cyngor a chymorth ychwanegol i ofalwyr maeth er mwyn eu helpu i hyrwyddo llesiant emosiynol plant a sicrhau lleoliad sefydlog.
- Mae angen i'r gwasanaeth barhau i ddatblygu gweithgarwch recriwtio er mwyn gwella'r dewis o leoliadau sydd ar gael i blant a sicrhau eu bod yn cael eu paru'n dda â gofalwyr maeth sy'n gallu diwallu eu hanghenion.
- Dylai disgwyliadau'r gwasanaeth maethu o ran hyfforddiant gael eu nodi'n glir yn y llawlyfr i ofalwyr maeth ac ym mholisi hyfforddi'r gwasanaeth. Dylai'r hyfforddiant a fynychir fod yn gydnaws â'r disgwyliadau a nodir yn y dogfennau hyn.
- Dylid sicrhau bod gan ofalwyr maeth gynlluniau dysgu a datblygu unigol sy'n seiliedig ar yr anghenion dysgu y cytunwyd arnynt ar eu cyfer ac sy'n llywio eu gweithgarwch hyfforddi ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.
- Dylid sicrhau bod gofalwyr maeth yn cael copïau o bolisïau a gweithdrefnau sydd wedi'u diweddaru lle y bo angen ac sy'n cynnwys deddfwriaeth gyfredol, canllawiau statudol ac arfer da.
- Dylid mynd ati i ddiwygio'r llawlyfr i ofalwyr maeth er mwyn sicrhau bod gan ofalwyr maeth wybodaeth gyfredol am ddeddfwriaeth, canllawiau statudol, polisïau a gweithdrefnau. Dylid sicrhau bod canllawiau ychwanegol yn cael eu cynnwys mewn perthynas â materion ariannol sy'n ymwneud â phlant gan gynnwys safbwynt y gwasanaeth ar gadw cofnodion a threfnu cyfrifon banc i blant.
- Dylai'r rheolwr tîm barhau i weithio tuag at gymhwyster rheoli lefel 5 y Fframwaith Credydau a Chymwysterau a rhoi gwybod i AGC pan fydd wedi cwblhau'r cymhwyster hwnnw.

- Dylai'r gwasanaeth maethu ystyried canllawiau strategol olynol "Mwy na Geiriau" Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol. Dylai pob darparwr gofal cymdeithasol gynnwys gwybodaeth am lefel y gwasanaeth a ddarperir yn Gymraeg yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i bobl ifanc ac adlewyrchu'r wybodaeth honno yn yr adolygiad ansawdd gofal blynyddol.

## 5. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd yn arolygiad llawn lle rhoddwyd rhybudd ac ystyriwyd pob un o'r tri maes ansawdd. Cynhaliwyd yr arolygiad gan ddau arolygydd dros gyfnod o chwe diwrnod ym mis Medi 2018. Cynhaliwyd yr arolygiad hwn ar yr un pryd ag arolygiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru o Wasanaethau Plant Cyngor Sir Penfro.

Cafwyd y wybodaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolygiad hwn drwy'r ffyrdd canlynol:

- Gwnaethom siarad â gofalwyr maeth mewn grwpiau ffocws a phedwar gofalwr maeth yn unigol
- Gwnaethom siarad â grŵp o blant a oedd yn derbyn gofal, a phlant a oedd wedi gadael gofal
- Gwnaethom siarad â rheolwr y tîm maethu
- Gwnaethom siarad â rheolwr y gwasanaeth
- Gwnaethom siarad ag aelodau o'r tîm maethu
- Gwnaethom fynychu cyflwyniad gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant
- Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau pymtheg o blant.
- Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau deuddeg o gartrefi maethu.
- Gwnaethom ddarllen cofnodion tri chyfarfod panel mewn perthynas â lleoliadau / adnoddau
- Gwnaethom ddarllen cofnodion y tri chyfarfod panel maethu diwethaf
- Gwnaethom fynychu'r panel maethu
- Gwnaethom dderbyn chwe holiadur gan aelodau'r panel
- Gwnaethom edrych ar sampl o waith papur y gwasanaeth maethu gan gynnwys y datganiad o ddiben, cynlluniau gwasanaeth, polisïau a gweithdrefnau, gwybodaeth am gwynion, adroddiadau adolygu ansawdd gofal, dogfennau sicrhau ansawdd, asesiadau o ofalwyr maeth ac adroddiadau adolygu blynyddol, sampl o ffeiliau staff, cofnodion hyfforddi a goruchwylio.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: [www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwasanaeth Maethu ALI** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **14/01/2016; 26/01/2016; 27/01/2016; 28/01/2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **03/09/2018; 05/09/2018; 06/09/2018; 14/09/2018; 19/09/2018; 16/09/2018** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'r tîm maethu yn cynnwys siaradwyr Cymraeg, ac mae rhai o'r gofalwyr maeth yn siarad Cymraeg hefyd. Caiff staff eu hannog i siarad Cymraeg yn y gweithle.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |